Office for Product Safety & Standards

PRYNWCH YN DDIOGEL
BYDDWCH YN DDIOGEL




# Siopa’n ddiogel ar farchnadoedd ar-lein

## Gall prynu ar-lein fod yn ffordd gyfleus o ddod o hyd i’r hyn sydd ei angen arnoch.

Gydag ychydig wiriadau syml, gallwch siopa’n fwy diogel a theimlo’n fwy hyderus am eich dewisiadau.




# Cyn ichi brynu

## Gwiriwch y gwerthwr

Edrychwch ar eu henw, eu lleoliad, ac ers faint maen nhw'n gwerthu ar y farchnadfa.


## Darllenwch adolygiadau'n ofalus

Chwiliwch am adolygiadau manwl sy'n sôn am ansawdd neu ddiogelwch y cynnyrch, nid sgoriau seren yn unig. Mae hefyd yn ddefnyddiol darllen rhai o'r adolygiadau negyddol.

## Gwiriwch yr wybodaeth am y cynnyrch

Dylai rhestriad dibynadwy gynnwys:

- disgrifiadau clir o'r cynnyrch
- cyfarwyddiadau neu rybuddion, lle bo'n berthnasol




## Chwiliwch am farciau diogelwch cydnabyddedig

Ar rai mathau o gynhyrchion mae angen marciau diogelwch fel:

- UKCA
- CE





## Edrychwch i weld a yw'r cynnyrch wedi cael ei adalw

Weithiau mae cynhyrchion â phroblemau diogelwch yn cael eu galw'n ôl. Gallwch wirio hyn drwy chwilio 'product recalls' ar **GOV.UK**.

## Pan fydd eich eitem yn cyrraedd:

- gwiriwch ei bod yn cyd-fynd â'r lluniau a'r disgrifiad ar-lein
- dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau diogelwch sydd wedi'u darparu

Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn iawn, stopiwch a chysylltwch â'r gwerthwr neu'r farchnadfa.



**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [gov.uk/guidance/consumer-product-safety-advice-for-staying-safe](https://gov.uk/guidance/consumer-product-safety-advice-for-staying-safe) neu sganiwch y cod QR:**